LEWIS, JOSEPH RHYS ('Alaw Rhondda '; 1860 - 1920)

Enw: Joseph Rhys Lewis
Ffugenw: Alaw Rhondda
Dyddiad geni: 1860
Dyddiad marw: 1920
Rhyw: Gwryw
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd ym Mhenderyn, 15 Mehefin 1860. Oherwydd ei fod yn blentyn gwannaidd ei iechyd ni chafodd fanteision addysg fore. Dechreuodd ymddiddori mewn cerddoriaeth, a dysgodd ganu'r piano. Bu'n dilyn dosbarthiadau Joseph Parry a David Evans yng Nghaerdydd. Penodwyd ef i ganu'r organ yng nghapel Penuel, Ferndale, a Bethania, Maerdy, wedi hynny. Cyfansoddodd lawer o donau ac opera ' Caradog ' a'r ' Resurrected Life.' Bu canu mawr ar ei dôc ' Nasareth ' ar yr emyn ' Dros bechadur buost farw ' yn niwygiad crefyddol 1904-5. Bu farw 17 Mehefin 1920 yn Ferndale, a chladdwyd ef ym mynwent gyhoeddus Ferndale.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

Y Cerddor, Awst a Hydref 1920

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733730

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu